# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Biliau Diwygio

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1, Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 9 Tachwedd 2023

Amser: 09.30 - 14.37

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13777

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | David Rees AS (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan AS<br>Darren Millar AS<br>Sarah Murphy AS |
| Tystion: | Professor Alistair Clark, Athro Gwyddor Gwleidyddiaeth, Prifysgol Newcastle<br>Dr Jac Larner, Darlithydd Gwleidyddiaeth, Prifysgol Caerdydd<br>Jess Blair, Electoral Reform Society Cymru<br>Alberto Smith, Make Votes Matter<br>Professor Ailsa Henderson, Cadeirydd, Boundaries Scotland<br>Malcolm Burr, Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban<br>Efa Gruffudd Jones, Comisiynydd y Gymraeg<br>Lowri Williams, Cyfarwyddwr Strategol, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg |
| Staff y Pwyllgor: | Helen Finlayson (Clerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Catherine Roberts (Dirprwy Glerc)<br>Josh Hayman (Ymchwilydd)<br>Aled Evans (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ni chafwyd ymddiheuriadau, dirprwyon na datganiadau o fuddiant.

## 2 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Sesiwn dystiolaeth gydag academyddion systemau etholiadol

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Athro Alistair Clark a Dr Jac Larner.

## 3 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Sesiwn dystiolaeth gyda sefydliadau diwygio etholiadol

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru a Make Votes Matter.

Cytunodd Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru i ddarparu rhagor o wybodaeth am:

- Y gwaith modelu y mae wedi'i wneud mewn perthynas â chymhwyso cwotâu rhywedd ymgeiswyr i systemau etholiadol gwahanol ar gyfer etholiadau'r Senedd.
- Unrhyw ystyriaeth y mae wedi'i gwneud o faterion sy'n ymwneud â'r posibilrwydd o fecanwaith i adalw Aelodau o'r Senedd.

## 4 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Sesiwn dystiolaeth ar y profiad diwygio etholiadol a ffiniau yn yr Alban

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Boundaries Scotland a Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban.

## 5 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Sesiwn dystiolaeth gyda Chomisiynydd y Gymraeg

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg.

## 6 Papurau i'w nodi

### 6.1 Ymateb gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ynghylch y Bil cwotâu rhywedd a ragwelir – 20 Hydref 2023

Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 6.2 Llythyr i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ynghylch y Bil cwotâu rhywedd a ragweli – 25 Hydref 2023

Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 6.3 Ymateb gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ynghylch y Bil cwotâu rhywedd a ragwelir – 1 Tachwedd 2023

Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 6.4 Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ynghylch Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) – 31 Hydref 2023

Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 6.5 Ymateb gan gyn-Gadeirydd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd – 2 Tachwedd 2023

Nododd y Pwyllgor y llythyr.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd am weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 8 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.